




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Ymyriadau rhagsefydlu ar gyfer cleifion ar restrau aros llawfeddygol dewisol

Crynodeb o dystiolaeth pwnc ar ymyriadau rhagsefydlu
rhoi'r gorau i ysmegu.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd/This document is also available in
English



Cynnwys:

Ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu cyn llawdriniaeth	5
Ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu cyn llawdriniaeth aml-gydrannol ar gyfer cleifion llawfeddygol dewisol	5
Ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu ffarmacoleg cyn llawdriniaeth ar gyfer cleifion llawfeddygol dewisol	8
Cyfeiriadau:	10

Cefndir

Ar hyn o bryd, mae amseroedd aros yn y GIG yn uwch nag erioed, gyda rhestrau aros arbennig o hir ym maes llawdriniaeth ddewisol. Gall disgwyl am amser maith am lawdriniaeth effeithio'n negyddol ar gleifion a allai brofi canlyniadau iechyd gwaeth, iechyd meddwl gwael, clefydau'n datblygu ymhellach, neu hyd yn oed farwolaeth¹. Gallai'r amser a dreulir yn disgwyl am lawdriniaeth gael ei ddefnyddio'n well yn paratoi cleifion. Nod ymyriadau rhagsefydlu yw gwella iechyd a lles cyffredinol cyn llawdriniaeth fawr, trwy ymyrryd yn y cyfnod cyn llawdriniaeth i addasu ffactorau risg ymddygiadol a ffordd o fyw a allai gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau cyn llawdriniaeth ac yn y tymor hwy.

Nod y crynodeb hwn o dystiolaeth pwnc yw archwilio:

- 1) Pa ymyriadau rhagsefydlu i oedolion ar restrau aros llawfeddygol dewisol sy'n effeithiol?
- 2) Pa nodweddion/cydrannau o ymyriadau rhagsefydlu i oedolion ar restrau aros llawfeddygol sy'n bwysig i'w llwyddiant?

Mae'r crynodeb hwn o dystiolaeth pwnc yn crynhoi **ymyriadau rhagsefydlu rhoi'r gorau i ysmegu** a nodwyd gan ein chwiliad tystiolaeth cyflym. Cafodd astudiaethau eu cynnwys os oeddent yn edrych ar ymyriadau rhagsefydlu i gefnogi cleifion wrth aros am lawdriniaeth, a lle aseswyd canlyniadau cyn llawdriniaeth i bennu effaith yr ymyriadau ar iechyd cleifion yn ystod y cyfnod cyn y llawdriniaeth. Nid yw canlyniadau ôl-lawdriniaeth wedi'u cynnwys yn y crynodeb hwn gan fod y diddordeb ar gleifion cyn llawdriniaeth, ac oherwydd y nifer fawr o ganlyniadau cyn llawdriniaeth a ddisgrifir yn yr astudiaethau.

Cafodd astudiaethau eu cynnwys os oeddent yn edrych ar ymyriadau rhagsefydlu i gefnogi cleifion i roi'r gorau i ysmegu wrth aros am lawdriniaeth. Er mwyn helpu pobl i barhau i ymatal rhag ysmegu yn ystod y cyfnod ar ôl llawdriniaeth ac er mwyn cynnal yr ymatal yn y tymor hir, parhaodd rhai astudiaethau â'r gefnogaeth yn yr ysbyty ac ar ôl y llawdriniaeth. Ystyriwyd bod y rhain o ddiddordeb

¹ Okolie C, et al. 2022. A rapid review of the effectiveness of innovations to support patients on elective surgical waiting lists. *Medrxiv* DOI: 10.1101/2022.06.10.22276151

<https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2022.06.10.22276151v1.full.pdf>



i'r rhanddeiliad ac felly, wrth adrodd, cafodd canlyniadau cyn llawdriniaeth ac ar ôl llawdriniaeth eu cynnwys yn y crynodeb hwn.

✓ **Bwriad y crynodeb hwn yw:**

- Cefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am bolisiau neu gamau gweithredu cenedlaethol neu leol
- Cefnogi sgysiau archwiliadol am ymyriadau, rhaglenni a gwasanaethau drwy:
 - Amlygu'r mathau o ymyriadau yr ymchwiliwyd iddynt
 - Amlygu'r mathau o ymyriadau sy'n dangos canlyniadau addawol ac sy'n deilwng o archwilio pellach sy'n benodol i'r cyd-destun
 - Amlygu'r mathau o ymyriadau sy'n llai tebygol o gael eu cefnogi gan y dystiolaeth ac y dylid eu hosgoi ar hyn o bryd.

✗ **Nid bwriad y crynodeb hwn yw:**

- Rhoi asesiad ansawdd a chyd-destunol manwl o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob ymyriad ac ni ddylid ei ddefnyddio ar ei ben ei hun i ddyrannu adnoddau
- Ystyried blaenoriaethau sy'n cystadlu, addasu i gyd-destun lleol, effeithio ar faint na chostau
- Ymdrin â'r holl ymyriadau posibl.



Allwedd Graddio Tystiolaeth:

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r ymyriad gael effaith gadarnhaol ar y canlyniad hwn:

Cefnogir yr ymyriad gan dystiolaeth o ansawdd da neu gymedrol o'i effeithiolrwydd ar gyfer y canlyniad hwn

Esboniad:

Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n cael eu harfarnu fel rhai o ansawdd da neu gymedrol ac maent yn dangos effaith o blaid yr ymyriad ar gyfer y canlyniad hwn

Ystyriaethau pellach:

Angen archwilio pellach sy'n benodol i'r cyd-destun (y gallu i gyffredinol i Gymru). Ystyried gwerthuso trylwyr os yw'r mathau hyn o raglenni'n cael eu gweithredu

Angen ymchwil pellach:

Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr ymyriad hwn yn cynnwys astudiaethau o ansawdd gwael i raddau helaeth ar gyfer y canlyniad hwn

Esboniad:

Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n cael eu harfarnu fel rhai o ansawdd gwael, ond maen nhw'n dal i ddangos effaith ar gyfer y canlyniad o blaid yr ymyriad

NEU

Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n cael eu harfarnu fel rhai o ansawdd gwael ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith ar y canlyniad hwn o blaid yr ymyriad

Ystyriaethau pellach:

Angen ymchwil sylfaenol mwy cadarn a gwerthuso trylwyr

Angen ymchwil pellach:

Mae'r sylfaen dystiolaeth yn anghyson. Efallai y bydd rhywfaint o dystiolaeth yn cefnogi'r defnydd o'r ymyriad hon ar gyfer y canlyniad hwn, ond nid yw'n bendant

Esboniad:

Mae canlyniadau astudiaethau yn anghyson heb fwyafrif clir o blaid neu yn erbyn yr ymyriad, waeth beth fo'r ansawdd

Ystyriaethau pellach:

Angen ymchwil sylfaenol mwy cadarn a gwerthuso trylwyr

Angen ymchwil pellach:

Mae diffyg tystiolaeth am yr ymyriad hwn ar gyfer y canlyniad hwn

Esboniad:

Dim ond un astudiaeth sydd wedi'i nodi ar gyfer yr ymyriad hwn (waeth beth fo'r ansawdd)

Ystyriaethau pellach:

Angen mwy o ymchwil sylfaenol a gwerthuso trylwyr

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu na fydd yr ymyriad yn effeithiol ar gyfer y canlyniad hwn o reidrwydd:

Mae yna dystiolaeth o ansawdd da neu gymedrol i awgrymu bod yr ymyriad hwn yn debygol o fod yn aneffeithiol ar gyfer y canlyniad hwn

Esboniad:

Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n cael eu harfarnu fel rhai o ansawdd da neu gymedrol ond nid ydynt yn cael unrhyw effaith ar yr ymyriad ar gyfer y canlyniad hwn

Ystyriaethau pellach:

Mae'r ymyriadau hyn yn llai tebygol o gael eu cefnogi gan dystiolaeth a dylid eu hosgoi ar hyn o bryd



Ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu cyn llawdriniaeth

Ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu cyn llawdriniaeth aml-gydrannol ar gyfer cleifion llawfeddygol dewisol⁽¹⁻⁵⁾

Sylwer, lle mai dim ond mewn un astudiaeth y mae'r canlyniadau wedi'u hasesu, mae'r rhain wedi'u graddio fel tystiolaeth annigonol yn ddiodyn. Er gwaethaf hyn, gwnaed ymgais yn y crynodeb i adrodd ar effeithiolrwydd yr astudiaethau.

Crynodeb o'r ymyriad:

Archwiliodd pum astudiaeth, dwy o ansawdd cryf^(3, 4), dwy o ansawdd cymedrol^(1, 5) ac un o ansawdd gwan⁽²⁾ effeithiolrwydd ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu aml-gydran wrth ymatal rhag defnyddio tybaco yn union cyn llawdriniaeth, gan gynnal eu hymataliad yn y cyfnod ar ôl llawdriniaeth, yn ogystal ag ymatal yn y tymor hir, mewn cleifion sy'n aros am amrywiaeth eang o lawdriniaethau dewisol. Ym mhob un o'r astudiaethau⁽¹⁻⁵⁾, parhaodd y gefnogaeth yn yr ysbyty ac ar ôl y llawdriniaeth. Cafodd y cleifion llawfeddygol dewisol eu cofrestru o wasanaethau llawfeddygol gan gynnwys deintyddol, pen a gwddf, cardiofasgwlaidd, llawdriniaeth gyffredinol, offthalmoleg, orthopedig, niwrolawfeddygol, plastigau, obstetreg/gynaecoleg a wroleg.

Roedd yr ymyriadau'n cynnwys un neu fwy o gydrannau, gan gynnwys therapi disodli nicotin⁽¹⁻⁵⁾, deunyddiau hunangymorth⁽¹⁻⁵⁾, cwnsela byr^(1, 2, 5), addysg^(1, 3), atgyfeiriad Quitline^(1, 2, 4), bupropion hydroclorid⁽²⁾ ac anogaethau i roi'r gorau i ysmegu⁽⁵⁾. Roedd y grwpiau cymharu'n cynnwys gofal arferol a allai fod wedi cynnwys cyngor arferol i roi'r gorau i ysmegu.

Canlyniadau:

Mae tystiolaeth o ansawdd da neu gymedrol i awgrymu bod **ymyriadau rhagsefydlu aml-gydrannol rhoi'r gorau i ysmegu yn debygol o fod yn effeithiol** ar gyfer y canlyniadau canlynol:

Ymatal - 24 awr cyn llawdriniaeth:

- **Gallai fod yn effeithiol** (5 astudiaeth; 4 [1 o ansawdd cryf⁽⁴⁾, 2 o ansawdd cymedrol^(1, 5), 1 o ansawdd gwan⁽²⁾] yn dangos effaith arwyddocaol yn y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd. Un [ansawdd cryf]⁽³⁾ yn dangos dim effaith yn y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).



Nifer y sigarêts/diwrnod cyn llawdriniaeth:

- **Gallai fod yn effeithiol** (3 Astudiaeth; 2 [1 o ansawdd cryf⁽⁴⁾, 1 o ansawdd cymedrol] ⁽¹⁾ yn dangos gostyngiad arwyddocaol, ac un [o ansawdd cryf]⁽³⁾ yn dangos nad oedd unrhyw effaith yn y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).

Digwyddiadau niweidiol difrifol gan gynnwys derbyniadau annisgwyl i'r ysbyty:

- **Gallai fod yn effeithiol** (3 Astudiaeth; 2 o ansawdd cryf^(3, 4), 1 o ansawdd cymedrol ⁽¹⁾). Nid oes yr un yn dangos unrhyw wahaniaeth mewn digwyddiadau niweidiol rhwng ymyriad a rheolaeth).

Mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd ar gyfer **ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu aml-gydrannol cyn llawdriniaeth yn ddiffygiol** ar gyfer y canlyniadau canlynol:

Ymatal - 4 wythnos cyn llawdriniaeth:

- **Gallai fod yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cryf yn dangos effaith arwyddocaol ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁴⁾.

Ymatal - yn syth ar ôl llawdriniaeth:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cryf nad oedd yn dangos unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽³⁾.

Ymatal - 30 diwrnod ar ôl llawdriniaeth:

- **Gallai fod yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos effaith arwyddocaol yn y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽¹⁾.

Ymatal - 6 mis ar ôl llawdriniaeth:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd gwan yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽²⁾.

Ymatal - 12 mis ar ôl llawdriniaeth:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd gwan yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽²⁾.

Lleihau ysmegu - cyn llawdriniaeth:

- **Gallai fod yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos effaith arwyddocaol ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽¹⁾.

Lleihau ysmegu - 30 diwrnod ar ôl llawdriniaeth:

- **Gallai fod yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos effaith arwyddocaol ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽¹⁾.

Ymdrechion llwyddiannus i roi'r gorau iddi wedi'u cynnal am fwy na 24 awr - cyn llawdriniaeth:



- **Gallai fod yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cryf yn dangos effaith arwyddocaol ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁴⁾.

Dibyniaeth nicotin - 3 mis ar ôl llawdriniaeth:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol nad oedd yn dangos unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁵⁾.

Nifer o ddiwrnodau heb ysmegu - cyn llawdriniaeth:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol nad oedd yn dangos unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽¹⁾.

Cymhlethdodau llawfeddygol ac ar ôl llawdriniaeth:

- **Gallai fod yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol nad yw'n dangos unrhyw wahaniaeth rhwng y grŵp ymyriad a'r grŵp rheolydd)⁽¹⁾.

Mae tystiolaeth o ansawdd da neu gymedrol i awgrymu bod **ymyriadau aml-gydrannol cyn llawdriniaeth yn debygol o fod yn aneffeithiol** ar gyfer y canlyniad canlynol:

Ymatal - 3 mis ar ôl llawdriniaeth:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (dwy astudiaeth; un o ansawdd cryf⁽³⁾, un o ansawdd cymedrol⁽⁵⁾, y ddwy yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).

Y gallu i gyffredinoli:

Cynhaliwyd dwy astudiaeth yn Awstralia^(4, 5) a Chanada^(1, 2) a gwnaed un astudiaeth yn Nenmarc⁽³⁾. Felly, dylid ystyried y gallu i gyffredinoli i gyd-destun Cymru.

Cymhwysedd:

Cynhaliwyd yr ymyriadau mewn cleifion a oedd yn aros am amrywiaeth eang o lawdriniaethau dewisol, ac felly gallant fod yn berthnasol i gleifion sy'n aros am amrywiaeth eang o lawdriniaethau dewisol.

Os ydych yn parhau â'r ymyriad hwn:

Awgrymir bod angen gwaith ymchwil cadarn pellach a gwerthuso effaith yn drylwyr.



Ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu ffarmacoleg cyn llawdriniaeth ar gyfer cleifion llawfeddygol dewisol⁽⁶⁾

Sylwer, gan mai dim ond un astudiaeth sydd wedi'i nodi yn y categori hwn, mae'r canlyniadau wedi'u graddio fel dystiolaeth annigonol yn ddiodyn. Er gwaethaf hyn, gwnaed ymgais yn y crynodeb i adrodd ar effeithiolrwydd yr astudiaeth.

Crynodeb o'r ymyriad:

Cymharodd un astudiaeth⁽⁶⁾ o ansawdd cymedrol effeithiolrwydd ymyriad rhoi'r gorau i ysmegu â meddyginiaeth varenicline i'r plasebo ar gyfer ymatal yn y tymor byr (yn union cyn llawdriniaeth, 3 mis a 6 mis ar ôl llawdriniaeth) ac ar gyfer ymatal yn y tymor hir (12 mis ar ôl llawdriniaeth), mewn cleifion sy'n aros am amrywiaeth eang o lawdriniaethau dewisol.

Cafodd y cleifion llawfeddygol dewisol eu cofrestru o wasanaethau llawfeddygol gan gynnwys llawfeddygaeth gyffredinol aildysgu cerdded neu gleifion mewnol, offthalmoleg, orthopedig, niwrolawfeddygol, plastigau, obstetreg/gynaecoleg a wroleg. Yn y ddau grŵp, dechreuodd y driniaeth (plasebo neu varenicline) wythnos cyn y llawdriniaeth, a pharhaodd ar ôl y llawdriniaeth. Yn ogystal, derbyniodd y ddau grŵp ddwy sesiwn o gwrsela safonol gyda'r sesiwn gyntaf yn cael ei chyflwyno cyn llawdriniaeth a'r ail yn cael ei chyflwyno naill ai 24 awr ar ôl llawdriniaeth neu cyn rhyddhau.

Canlyniadau:

Mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu ffarmacoleg cyn llawdriniaeth i gleifion llawfeddygol dewisol yn ddiffygiol ar gyfer y canlyniadau canlynol:

Ymatal - 24 awr cyn llawdriniaeth:

- Efallai na fydd yn effeithiol (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol nad oedd yn dangos unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁶⁾.

Ymatal - 3 mis ar ôl llawdriniaeth:

- Gallai fod yn effeithiol (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos effaith arwyddocaol yn y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁶⁾.

Ymatal - 6 mis ar ôl llawdriniaeth:

- Gallai fod yn effeithiol (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos effaith arwyddocaol yn y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁶⁾.



Ymatal - 12 mis ar ôl llawdriniaeth:

- **Gallai fod yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos effaith arwyddocaol yn y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁶⁾.

Nifer y sigaréts/diwrnod cyn llawdriniaeth:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol nad oedd yn dangos unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁶⁾.

Nifer y sigaréts/diwrnod 3 mis ar ôl llawdriniaeth:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol nad oedd yn dangos unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁶⁾.

Nifer y sigaréts/diwrnod 6 mis ar ôl llawdriniaeth:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol nad oedd yn dangos unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁶⁾.

Nifer y sigaréts/diwrnod 12 mis ar ôl llawdriniaeth:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol nad oedd yn dangos unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁶⁾.

Digwyddiadau niweidiol difrifol gan gynnwys derbyniadau annisgwyl i'r ysbyty:

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos nifer arwyddocaol uwch o ddigwyddiadau niweidiol difrifol yn cael eu hadrodd, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty na ragwelwyd o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁶⁾.

Cymhlethdodau llawfeddygol ac ar ôl llawdriniaeth:

- **Gallai fod yn effeithiol** (1 astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos dim effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd)⁽⁶⁾.



Y gallu i gyffredinoli:

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon yng Nghanada⁽⁶⁾, felly mae angen ystyried y gallu i gyffredinoli i gyd-destun Cymru.

Cymhwysedd:

Cynhaliwyd yr ymyriad mewn cleifion a oedd yn aros am amrywiaeth eang o lawdriniaethau dewisol, ac felly gall fod yn berthnasol i gleifion sy'n aros am amrywiaeth eang o lawdriniaethau dewisol.

Os ydych yn parhau â'r ymyriad hon:

Awgrymir bod angen gwaith ymchwil cadarn pellach a gwerthuso effaith yn drylwyr.

Cyfeiriadau:

1. Lee SM, Landry J, Jones PM, Buhrmann O, Morley-Forster P. The effectiveness of a perioperative smoking cessation program: a randomized clinical trial. *Anesthesia & Analgesia*. 2013;117(3):605-13.
2. Ratner PA, Johnson JL, Richardson CG, Bottorff JL, Moffat B, Mackay M, et al. Efficacy of a smoking-cessation intervention for elective-surgical patients. *Research in nursing & health*. 2004;27(3):148-61.
3. Sørensen LT, Hemmingsen U, Jørgensen T. Strategies of smoking cessation intervention before hernia surgery—effect on perioperative smoking behavior. *Hernia : the journal of hernias and abdominal wall surgery*. 2007;11(4):327-33.
4. Webb AR, Coward L, Meanger D, Leong S, White SL, Borland R. Offering mailed nicotine replacement therapy and Quitline support before elective surgery: a randomised controlled trial. *The Medical journal of Australia*. 2022;216(7):357-63.
5. Wolfenden L, Wiggers J, Knight J, Campbell E, Rissel C, Kerridge R, et al. A programme for reducing smoking in pre-operative surgical patients: randomised controlled trial. *Anaesthesia*. 2005;60(2):172-9.
6. Wong J, Abrishami A, Yang Y, Zaki A, Friedman Z, Selby P, et al. A perioperative smoking cessation intervention with varenicline: a double-blind, randomized, placebo-controlled trial. *Anesthesiology*. 2012;117(4):755-64.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

Working together for a healthier Wales

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd sydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w nodi.

ISBN: 978-1-83766-334-7